Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 18 Mehefin 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer) a Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

39. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rosie Hughes, John Wynne Hughes ac Ifan Wyn.

40. CYFLWYNIAD YNGHYLCH HEN SAFLE YSGOL STRYD Y RHOS AC YSGOL PEN BARRAS

Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitem hon yn Rhan Dau oherwydd natur gyfrinachol y cyflwyniad. Croesawodd y Maer Tom Booty, Swyddog Arweiniol Rheoli Asedau Strategol Cyngor Sir Ddinbych, a rannodd ddogfen yn amlinellu'r dewisiadau potensial o ran y safle gwag. Holodd Cynghorwyr a fyddai'r safle yn cael ei chadw'n daclus a'r glaswellt yn cael ei dorri, fel ei bod yn edrych yn atyniadol i ddarpar ddatblygwyr a chadarnhawyd y byddai hyn yn digwydd.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

41. DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiadau o fudd personol gan y canlynol: Y Cynghorydd Menna Jones a'r Cynghorydd Emrys Wynne ynghylch eitem 12i – Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor Sioe Rhuthun; y Cynghorwyr Anne Roberts a Dave Snape yng nghyswllt eitem 12ii – Cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Cymuned Llanfwrog tuag at yr arddangosfa tân gwyllt a'r Cynghorydd Heather Williams yng nghyswllt eitem 13 – cais am statws Croesawu Bysiau Moethus.

42. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

21.05 Codi baner i ddynodi canlmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol wrth Neuadd y Sir, Rhuthun
22.05 Cyfarfod gyda'r Parchedig Stuart Evans i drafod y gwasanaeth Sul Dinesig
23.05 Cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys
01.06 Cyflwyno gwobrau Ysgol Rhuthun
06.06 Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Ysbyty Rhuthun yng Nghanolfan Awelon
17.06 Gwasanaeth Sul Dinesig Maer Dinbych yn Eglwys Sant Joseff, Dinbych.

43. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys, seremoni wobrwyo Ysgol Rhuthun, cyfarfod gyda Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos a chyfarfod llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gŵyl Rhuthun
Cyng. Ken Hawkins	Seremoni wobrwyo Ysgol Rhuthun
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, hyfforddiant cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych yng Nghaledfryn, Dinbych, cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys a chyfarfod gyda Mrs Karen Evans, Pennaeth Addysg a Mr Geraint Davies, Swyddog Addysg Cyngor Sir Ddinbych i drafod materion Iechyd a Diogelwch yn gysylltiedig â'r safle newydd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, codi baner i ddynodi canmlwyddiant yr

	Awyrlu Brenhinol, Fforwm dros 50 oed yn Llys Awelon, cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys, cyfarfod Ymlaen Rhuthun ynghylch y Carnifal, cyfarfod Drysau Agored Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a seremoni wobrwyo Ysgol Rhuthun.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose, cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys, seremoni wobrwyo Ysgol Rhuthun a chyfarfod Sioe Rhuthun (dirprwyo ar ran y Cynghorydd Jim Bryan).
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys, hyfforddiant cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych yng Nghaledfryn, Dinbych a chyfarfod gweithgor Statws Croesawu Bysiau Moethus.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys.
Cyng. Emrys Wynne	Dwy sesiwn hyfforddiant Llywodraethwyr, Neuadd y Sir, cyfarfod cyhoeddus i drafod y bwriadau o ran yr Hen Lys a seremoni wobrwyo Ysgol Rhuthun

Darparodd y Cynghorwyr Heather Williams a Robert Owen-Ellis adborth ar y sesiwn hyfforddiant cynllunio ynghylch cydymffurfio a gorfodaeth cynllunio a gyflwynwyd gan Adam Turner, unig Swyddog Cydymffurfio yr awdurdod lleol, ac roedd y ddau o'r farn bod y sesiwn yn ddiddorol a defnyddiol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen-Ellis at y cyfarfod gyda swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych i drafod materion iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â safle'r ysgolion newydd yng Nglasdir. Cyfeiriwyd at y perygl i ddiogelwch plant wrth gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwteri i deithio i ac o'r ysgol, yn enwedig yr angen i groesi Ffordd Glasdir i ddilyn y llwybr i gerddwyr a beicwyr. Cynigiwyd anfon llythyr yn mynegi'r pryderon hyn at Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, yn gofyn am gyfarfod gyda chynrychiolwyr y ddwy ysgol i drafod y mater ar frys.

44. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2018 yn gywir.*

45. MATERION YN CODI

Hysbysodd y Clerc y byddai Lisa Jones, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ddinbych, yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor i anerch yr aelodau ynghylch eu hymrwymiadau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd. Cytunwyd i ohirio cyflwyniad gan Heddlu Rhuthun tan gyfarfod mis Medi, gyda chais i ddosbarthu'r data troseddau cyn y cyfarfod.

46. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018.*

47. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018.*

28. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN, AELODAETH PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

Derbyniodd yr aelodau ddogfennau'n rhoi manylion cyswllt yr aelodau ac yn nodi aelodaeth pwyllgorau a chynrychiolaeth ar gyrff allanol. Cytunwyd y dylai'r Cynghorwyr Dave Snape a Gavin Harris alw cyfarfod o Dîm Tref Rhuthun, i weld a yw'r corff yn dymuno parhau neu beidio. Hefyd cytunwyd i ohirio'r penderfyniad ynghylch cynrychiolydd y Siambr Fasnach, gan fod trafodaethau'n parhau ynghylch uno'r Grŵp Busnes a'r Siambr Fasnach.

PENDERFYNWYD*: nodi'r manylion.*

49. COFFAU CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Roedd y Cynghorydd Rosie Hughes wedi cysylltu gyda'r Clerc ac esbonio ei bod yn aros am ragor o wybodaeth yn y post. Gofynnodd am ystyried y wybodaeth rhwng y cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Amwynderau nesaf ar 9 Gorffennaf, petai wedi cyrraedd mewn pryd.
PENDERFYNWYD*: trafod hyn rhwng y cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Amwynderau nesaf ar 9 Gorffennaf, yn amodol ar dderbyn y wybodaeth mewn pryd.*

50. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan:

i. Pwyllgor Sioe Rhuthun – cais am £500.00 tuag at gostau cynnal y sioe flynyddol.
ii. Cymdeithas Gymuned Llanfwrog – cais am £1,200.00 tuag at yr arddangosfa tân gwyllt a £500.00 tuag at golledion posibl y casgliad bwcedi.

PENDERFYNWYD*: darparu cymorth ariannol o £500.00 i Bwyllgor Sioe Rhuthun yn unol â'r cais, a dyrannu £1,200.00 tuag at arddangosfa tân gwyllt 2018.*

51. STATWS TREF SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS

Esboniodd y Cynghorydd Heather Williams bod y gweithgor wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol, a bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnig sicrhau hysbyseb mwy manwl ar gyfer Rhuthun yn Llawlyfr Gyrwyr Bysiau Moethus, ar gost o £175.00. Arweiniwyd yr aelodau trwy'r ffurflen gais, ac esboniodd mai'r darn gwaith terfynol cyn cyflwyno'r cais oedd llunio tudalen benodol yn cynnwys gwybodaeth i gwmnïau bysiau moethus a gyrwyr ar wefan Visit Ruthin. Unwaith y cyflwynir y ffurflen gais byddai swyddog CPT Coach Friendly Status yn trefnu ymweliad i asesu cais Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: derbyn y wybodaeth a bwrw ymlaen gyda'r cais erbyn diwedd mis Mehefin.*

52. CYNHADLEDD CYMRU 2018 SLCC

Cyflwynodd y Clerc gais i fynd i Gynhadledd Cymru 2018 wedi'i threfnu gan SLCC yng Ngwesty San Sior, Llandudno, ddydd Mercher, 5 Medi 2018 ar gost o £75.00 + TAW.
PENDERFYNWYD*: cytuno i'r cais ac i'r Clerc archebu lle yn y gynhadledd.*

53. DATGANIAD ARIANNOL

Esboniodd y Clerc bod y datganiad ariannol yn adlewyrchu'r taliadau y mis blaenorol. Hefyd cadarnhaodd bod y newid o gyfrifon banc Barclays i gyfrifon banc HSBC ar fin digwydd, a dyna'r rheswm am newid rhif y siec ar gyfer rhai o'r taliadau a restrwyd.
PENDERFYNWYD: *derbyn y wybodaeth.*

54. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5181	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Adnewyddu aelodaeth		£30.00
5182	Ymlaen Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at gynnal Carnival Rhuthun		£500.00
5183	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cymorth ariannol tuag at Ddrysau Agored Rhuthun		£1,500.00
5184	Cymdeithas Efeillio Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at weithgareddau'r Gymdeithas Efeillio		£1,500.00
5193	Gŵyl Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at drefnu'r Ŵyl		£1,000.00
100001	Haydn Peers	Hysbysiad Preifatrwydd a Chydymffurfio gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol		£35.00
100002	Cyngor Sir Ddinbych	Llenwi'r basgedi crog ar draws canol tref Rhuthun	*	£432.00
100003	I T Williams Co. Ltd	Cludo'r planwyr ar gyfer y basgedi crog	*	£544.50
100004	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mehefin 2018		£528.39
100005	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£14.84

100006	Elevator Design Limited	Tystysgrif SSL a chynnal gwefan Visit Ruthin am 12 mis o 12 Mehefin 2018	*	£186.00
100007	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100008	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
100009	Cyngor Sir Ddinbych	Cyflenwi a gosod 4 arwydd enw stryd yn Ffordd Glasdir	*	£1,058.59
100010	J&C Brimble	Dyfrio basgedi crog		£1,001.00
100011	Urdd Gobaith Cymru	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2020		£3,000.00

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid trafod yr eitem a ganlyn yn Rhan Dau, oherwydd natur gyfrinachol y trafodaethau.

55. YR HEN LYS

Cyflwynodd y Cynghorwyr Ian Lewney a Gavin Harris ddiweddariad ar y gwaith a oedd wedi'i wneud a'r ffurflenni i'w hanfon ar gyfer cymeradwyaeth i fenthyca a cheisiadau grant. Hefyd nodwyd bod y cytundeb rhagbrynu wedi'u dderbyn ac y byddai'n cael ei lofnodi gan y Maer a'r Dirprwy Faer. Hefyd cynigiwyd cyflwyno cynnig am yr adeilad yr un pryd.

PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad a bwrw ymlaen i gyflwyno cynnig am yr adeilad.*

56. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 16 Gorffennaf 2018 am 7.00pm.*